**Vaughan Gething AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Dai Lloyd AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon
Senedd Cymru
Caerdydd
CF99 1SN

21 Rhagfyr 2020

Annwyl Dai,

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 10 Rhagfyr 2020 ynglŷn â'r trefniadau sy'n olynu'r cynlluniau cyflawni ar gyfer cyflyrau iechyd difrifol.

Ym mis Chwefror, cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y byddai trefniadau olynol ar waith yn lle'r cynlluniau cyflawni ar gyfer canser, cyflyrau ar y galon a strôc, erbyn mis Rhagfyr. Hefyd, cadarnhaodd y Dirprwy Weinidog y byddai'r cynlluniau cyflawni eraill (ar gyfer clefydau'r afu a chlefydau anadlol, diabetes, a chyflyrau niwrolegol, gofal diwedd oes a gofal critigol) yn cael eu hymestyn am flwyddyn er mwyn rhoi mwy o amser i weithredu trefniadau olynol. Yn anffodus, yn y cyfamser mae'r swyddogion perthnasol yn y meysydd polisi hyn wedi gorfod canolbwyntio ar yr ymateb i'r pandemig, gan gynnwys lleihau ei effeithiau ar y gwasanaethau y mae'r cynlluniau cyflawni hyn yn gysylltiedig â nhw. Hefyd, cafodd y gwaith o werthuso effeithiolrwydd pob un o'r cynlluniau ei atal am y tro.

Ar 25 Tachwedd, fe wneuthum gadarnhau wrth y Senedd fod y trefniadau olynol ar gyfer y cynllun canser wedi cael eu gohirio, ond fy mod yn gobeithio y byddaf mewn sefyllfa i gyhoeddi dull gweithredu newydd ym mis Mawrth 2021. Rwy'n ystyried cyhoeddi'r dogfennau ar gyfer clefyd y galon a strôc ochr yn ochr â hynny. Yn y cyfamser, bydd dulliau'r cynllun cyflawni presennol yn parhau i gael eu gweithredu er mwyn llywio'r rhaglenni gwaith cenedlaethol a gwaith chynllunio'r GIG. Nod y trefniadau olynol ar gyfer y cynlluniau cyflawni yw gosod cyfeiriad tymor canolig ar gyfer datblygu gwasanaethau clinigol penodol, yn hytrach na bod â nod uniongyrchol ar gyfer adfer y GIG yng Nghymru wedi'r pandemig.

Dywedodd y Dirprwy Weinidog ym mis Chwefror y byddai angen i'r dull gweithredu newydd ar gyfer cyflyrau difrifol gydweddu â'r cyfleoedd a nodir yn y ddogfen *Cymru Iachach*, gan fanteisio ar y cyfleoedd hynny, ac fe wneuthum innau gadarnhau hyn ym mis Tachwedd. Mae'n cynnwys datblygu Fframwaith Clinigol Cenedlaethol, swyddogaeth Weithrediaeth y GIG, a'r potensial i gynhyrchu Datganiadau Ansawdd.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn ystod y ddwy flynedd diwethaf, rydym wedi pwyso a mesur cryfderau a gwendidau'r dull gweithredu sy'n seiliedig ar gynlluniau cyflawni. O ganlyniad i'r ystyriaeth fanwl honno, rydym wedi dod i'r farn y dylid datblygu fformat newydd ar gyfer y blynyddoedd nesaf. Rwy'n awyddus inni adeiladu ar bopeth yr ydym wedi ei roi ar waith yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gan ddysgu hefyd sut i wella'r dull gweithredu sydd wedi ei ddefnyddio hyd yn hyn. Drwy gydol y flwyddyn ddiwethaf, mae fy swyddogion wedi bod yn datblygu'r cysyniad o Ddatganiadau Ansawdd a fydd yn ategu cynlluniau Gweithrediaeth y GIG ar lefel rhwydwaith clinigol fel rhan o swyddogaeth arfaethedig y Weithrediaeth. Rydym wedi gwneud rhywfaint o waith ymgysylltu cychwynnol gyda rhanddeiliaid o ran y Datganiad Ansawdd ar gyfer Canser a chyflyrau ar y galon, ond rwy'n edrych ymlaen at ddarparu rhagor o fanylion yn ystod y misoedd nesaf.

Bydd y dulliau gweithredu olynol ar gyfer y cynlluniau hynny nad yw cynlluniau eraill yn gweithredu eu lle erbyn mis Mawrth 2021, yn fater i'r llywodraeth newydd eu hystyried ar ôl yr etholiadau ym mis Mai 2021.

Diolch ichi am ysgrifennu ataf ynghylch y mater hwn.

Yn gywir



**Vaughan Gething AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services